

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Swyddfa'r UE

## Materion Ewropeaidd

Rhifyn 27 – Gwanwyn/Haf 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

# Cyflwyniad



**Rosemary Butler AC**
**Y Llywydd**

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno rhifyn 27 o Materion Ewropeaidd ichi, sef ein dogfen sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion Ewropeaidd.

Gyda dyfodiad hir ddisgwyliedig yr haf, mae'n gyfnod da i edrych yn ôl dros gyfnod arall a fu'n brysur o ran materion Ewropeaidd yn ein pwyllgorau ac yng ngwaith Aelodau unigol.

Mae pwyllgorau'r Cynulliad yn parhau i chwarae rhan weithgar mewn materion Ewropeaidd, ac yn cynnal proffil uchel y Cynulliad o fewn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel, ac yn helpu ystod eang o randdeiliaid a chysylltiadau o Gymru i gymryd rhan yn y prosesau deddfu a phrosesau polisi'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi cynnal nifer o ymchwiliadau sydd â dimensiwn Ewropeaidd gryf, er enghraifft yr ymchwiliad i rywogaeth oresgynnol estron, nwy siâl a'r amgylchedd morol, ac wedi casglu tystiolaeth gan swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd ac arbenigwyr eraill o'r UE. Bydd y Pwyllgor hwn hefyd yn cynnal sesiynau diweddaru ym mis Gorffennaf â Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE ac â rhanddeiliaid o Gymru ar y trafodaethau i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi cynnal ymchwiliad i edrych ar sut y gall Cymru wella ei siawns o lwyddo o dan raglen ymchwil ac arloesi Horizon 2020 yr UE ar gyfer 2014-2020, gan edrych ar fodelau o arfer gorau yn Iwerddon, yr Alban, Catalonia ac Aragon. Mae'r Pwyllgor wedi trefnu sesiwn ddiweddaru gyda'r Comisiwn Ewropeaidd a Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, ar 18 Gorffennaf a fydd yn canolbwyntio ar y trafodaethau o dan Lywyddiaeth Iwerddon o'r UE ar Gronfeydd Strwythurol yr UE a'r fframwaith ariannol aml-flwydd, a'r paratoadau ar gyfer rhaglenni UE yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sydd â'r prif gyfrifoldeb dros fonitro sybsidiaredd yn y Cynulliad, yn cynnal ymchwiliad newydd sy'n edrych ar rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE. Mae'r Pwyllgor yn casglu tystiolaeth o Frwsel – gan gynnwys ymweliad cyntaf ar 17 Mehefin ac ymweliad dilynol yn yr hydref – drwy gyfarfod ag uwch swyddogion a gwleidyddion yn sefydliadau'r UE, yn ogystal ag ystod o rwydweithiau a chynrychiolwyr eraill yn yr UE. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod dealltwriaeth glir gennym ynghylch cyfranogiad Cymru yn Ewrop.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd pwysig am faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd.

Ar ddiwedd mis Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm EC-UK – sef cyfarfod anffurfiol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn o Gadeiryddion pwyllgorau sy'n gyfrifol am faterion Ewropeaidd yn y DU ac yn y deddfwrfeydd datganoledig – yn y Senedd, o dan Gadeiryddiaeth David Melding AC. Mae'r fforwm hwn yn cynnig cyfle i rannu gwybodaeth am waith cyfredol a blaenorol sy'n ymwneud â Materion Ewropeaidd, ac rydym yn croesawu'r fenter hon a'r berthynas waith gadarnhaol rhwng ein gwleidyddion a swyddogion ar faterion Ewropeaidd.

Ar 1 Mai – a oedd yn Ddiwrnod Ewrop go iawn i ni eleni! – fe wnaethom gynnal cyfarfod anffurfiol o Gadeiryddion pwyllgorau gydag Aelodau Cymru o Senedd Ewrop a chynrychiolwyr ar Bwyllgor y Rhanbarthau, ac roedd yn hynod ddefnyddiol i glywed am eu profiadau o'r trafodaethau parhaus ar rai o'r prif faterion i Gymru ym Mrwsel. Gyda'r nos roeddem ni a chynrychiolaeth y DU yn Senedd Ewrop a Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yn cyd-noddi yn y Pierhead dderbyniad a dadl ar Gymru yn Ewrop i ddathlu 40 mlynedd ers i'r DU ddod yn aelod o'r UE. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus iawn ac roedd yn cynnwys trafodaeth gyda phanel a oedd yn cynnwys Aelodau Cymru o Senedd Ewrop ac Aelodau'r Cynulliad.

Ar 11 Gorffennaf, byddwn yn croesawu Shan Morgan, Dirprwy Lysgennad y DU i'r UE, ar ei hymweliad deuddydd i Gymru a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd Shan yn cwrdd â Chadeiryddion pwyllgorau i drafod gwaith Cynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr UE ym Mrwsel, a rhai o'r prif faterion sydd ar ein hagenda yn y Cynulliad.

Hoffwn longyfarch Mick Antoniw AC ar ôl cael ei benodi yn gynrychiolydd newydd y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, gan gymryd yr awennau oddi wrth Christine Chapman AC, a adawodd y swydd fis Tachwedd diwethaf.

Mae gan Gymru lais cryf ac aelodau gweithgar ar Bwyllgor y Rhanbarthau; gellir gweld hyn o'r nifer o adroddiadau 'rapporteurs' y maent wedi'u sicrhau ar nifer o faterion arwyddocaol iawn i Gymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Rhodri Glyn Thomas AC yn ysgrifennu ei drydydd adroddiad mewn blwyddyn – mae'r diweddaraf yn ymwneud â chymorth gwladwriaethol ar gyfer pysgodfeydd a dyframaethu – yn dilyn ei waith pwysig ar synergeddau rhwng cyllideb yr UE a rôl Banc Buddsoddi Ewrop,ac mae Mick Antoniw newydd gael ei benodi yn rapporteur am y tro cyntaf, a hynny er mwyn ymchwilio i wasanaethau cyflogaeth.

Yn ogystal â'r rhai a grybwyllwyd eisioes, rydym wedi croesawu ystod o bwysigion eraill i'r Cynulliad dros y misoedd diwethaf, gan gynnwys llysgenhadon Cuba, Ffrainc, Iwerddon a'r Iseldiroedd. Rwy'n falch o weld bod Aelodau yn parhau i fod yn weithgar ar lefel Ewropeaidd a rhyngwladol, gan gynnwys cymryd rhan yn y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig, Cynulliad Seneddol y Gymanwlad, a CALRE, i enwi ond rhai.

# Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

– **Ymchwiliad i Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**: Bydd sesiwn ddiweddaru anffurfiol yn cael ei chynnal ar 11 Gorffennaf gyda'r prif swyddog o Gynrychiolaeth Barhaol Iwerddon i'r UE, i drafod y cynnydd o ran trafodaethau Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE. Ar 17 Gorffennaf, bydd cyfarfod bwrdd crwn yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid i drafod canlyniadau'r Cyngor Amaeth a'r trafodaethau tairochrog ar ddiwygio'r PAC.

– **Ymchwiliad i Ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC)**: bydd trafodaethau ynghylch diwygio'r PPC yn cael eu cynnal mewn dwy sesiwn a gynhelir ar Gorffennaf 11 ac 17 (fel y nodir uchod)

– **Yr amgylchedd forol**: cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ddiwedd mis Ionawr 2013.

– **Polisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru**: cynhaliodd y Pwyllgor nifer o sesiynau dilynol ar 25 Ebrill 2013 i'r ymchwiliad hwn a gynhaliwyd yn ystod yr hydref, gan gynnwys sesiwn gyda swyddogion o Gyfarwyddiaethau Cyffredinol yr Amgylchedd ac Ynni i drafod ynni o nwy anghonfensiynol (nwy siâl).

– **Rhywogaethau Goresgynnol Estron**: Cynhaliwyd sesiynau gyda rhanddeiliaid o Gymru a Llywodraeth Cymru ym mis Mai a Mehefin, a threfnwyd sesiwn gyda'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Amgylchedd yn dilyn cyhoeddi cynigion a ddisgwylir yn yr hydref.

– Adolygu'r Polisi Gwastraff: Mae'r Pwyllgor yn chwilio am ymchwiliadau posibl yn y dyfodol i agweddau ar bolisi gwastraff yng Nghymru yn nghyd-destun yr adolygiad presennol o bolisi gwastraff yr UE ac adolygiadau posibl i ddeddfwriaeth yr UE yn 2014.

## Y Pwyllgor Menter a Busnes

– Horizon2020 rhan 2: Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar ail ran o'i ymchwiliad i Horizon2020 ar 31 Mai 2013 . Roedd y cyfnod hwn yn edrych yn benodol ar y cymorth i Gymru gyfrannu yn y dyfodol, gan gymryd tystiolaeth ar 14 Mawrth o Iwerddon, yr Alban, ERRIN (rhwydwaith yr UE) a Phrifysgol Caerdydd, yn ogystal â chasglu gwybodaeth gefndir am strwythurau cymorth a lefelau cyfranogiad ar gyfer FP7 yn Fflandrys, Aragon a Chatalonia.

– **Cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE rhwng 2014 a 2020:** ar 18 Gorffennaf, bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn ddiweddaru gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch y cynnydd o ran y trafodaethau ar y cynigion deddfwriaethol o dan Lywyddiaeth Iwerddon o'r UE. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnal sesiwn gyda Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, i drafod paratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol y dyfodol a'i hymateb i adroddiad Horizon2020 y Pwyllgor.

– **Ymchwiliad i Drafnidiaeth Gyhoeddus Integredig yng Nghymru**: cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr ymchwiliad hwn ym mis Mai 2013.

– **Entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc**: Roedd yr ymchwiliad byr hwn yn ystod tymor yr haf yn canolbwyntio ar Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys sesiynau tystiolaeth gan entrepreneuriaid ifanc, rhanddeiliaid eraill o Gymru a'r Gweinidogion perthnasol o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys mentrau a gefnogir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE. Mae'n debygol y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ddechrau hydref.

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

– **Rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE**: ymchwiliad newydd a lansiwyd ddechrau mis Mai sy'n edrych ar rôl Cymru o ran dylanwadu ar y broses o greu polisïau a deddfau'r UE. Mae sesiynau tystiolaeth wedi'u trefnu ar gyfer tymhorau'r haf a'r hydref, gan gynnwys ymweliadau'r Pwyllgor â Brwsel. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ymgynghori â rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol.

– **Adroddiad ar sybsidiaredd**: adroddiad tymhorol rheolaidd ar fonitro dimensiwn sybsidiaredd cynigion deddfwriaethol yr UE. Cafodd yr adroddiad diweddaraf, ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr ac Ebrill 2013, ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 3 Mehefin 2013.

– **Pryder ynghylch sybsidiaredd**: anfonwyd gohebiaeth at Bwyllgor Materion Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin, Aelodau Cymru o Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd ar 15 Mai yn amlinellu pryderon y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch sybsidiaredd yn y Cynnig i Reoleiddio Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch Mesurau i leihau'r Gost o Sefydlu Rhwydweithiau Cyfathrebu Electronig Cyflym.

## Busnes y Cyfarfod Llawn â sesiynau penodol am faterion Ewropeaidd

– **19 Chwefror**: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Halogi Cynnyrch Cig Eidion

– **20 Chwefror**: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid, 'Effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru'

– **12 Mawrth**: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Adroddiad Guildford ar y Trefniadau ar gyfer Gweithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2014-2020

– **17 Ebrill**: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar yr ymchwiliad i bolisi morol yng Nghymru

– **14 Mai**: Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Ymateb Llywodraeth Cymru i Argymhellion Adroddiad Guildford

– **3 Gorffennaf**: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Horizon 2020

*Nodyn: yn ogystal â'r uchod, mae materion Ewropeaidd yn codi'n aml iawn mewn cwestiynau i Weinidogion.*

## Gweithgareddau allanol Aelodau ar fusnes y Cynulliad

- 11 Ebrill: Cyflwynodd Rhodri Glyn Thomas AC ei adroddiad ar gyllid cyhoeddus a phreifat, (gan gynnwys rôl Banc Buddsoddi Ewrop) i gyfarfod llawn Pwyllgor y Rhanbarthau, a hynny yn Gymraeg. Cafodd yr adroddiad ei fabwysiadu'n unfrydol gyda chefnogaeth trawsbleidiol.
- 15 Ebrill: Aeth Rosemary Butler AC, y Llywydd, i ail gyfarfod Pwyllgor Sefydlog CALRE yn Fenis.
- 13 Mai: Bu Rhodri Glyn Thomas AC yn cadeirio sesiwn banel gyda Banc Buddsoddi Ewrop a Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE mewn cynhadledd lefel uchel ym Mrwsel, a oedd yn canolbwyntio ar rôl cronfa'r UE a chyllideb Banc Buddsoddi Ewrop wrth gefnogi buddsoddiadau ar lefel leol a rhanbarthol.
- 27 Mai i 1 Mehefin: Roedd Antoinette Sandbach AC yn cynrychioli'r Cynulliad ar bedwaredd ar hugain Seminar Seneddol y Gymanwlad yn Singapore.
- 29 Mai: Aeth Peter Black AC i gyfarfod Gweithgor CALRE ynghylch e-ddemocratiaeth a gafodd ei gynnal yn Senedd Andalucia yn Sevilla.
- 3 Mehefin: Siaradodd Rhodri Glyn Thomas AC mewn cynhadledd Ewropeaidd yn Kolobrzeg, Gwlad Pwyl ar ran Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau, gan gyflwyno'r prif ganfyddiadau o'i ddau adroddiad ynghylch synergeddau rhwng cyllideb yr UE, yr aelod-wladwriaethau a'r is-wladwriaethau, a chyllid cyhoeddus/preifat.
- 17 Mehefin: Bu Joyce Watson AC yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfod diweddaraf Pwyllgor yr Amgylchedd a Chymdeithasol y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig ynghylch ei ymchwiliad presennol i fasnachu mewn pobl a gynhaliwyd yn Nulyn.
- 17 Mehefin: Bu David Melding AC (Cadeirydd) ac Eluned Parrott AC o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ymweliad i gasglu tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn y UE, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd â Lowri Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Bysgodfeydd a Materion Morol, Kay Swinburne, yr Aelod o Gymru ar Senedd Ewrop, uwch swyddogion o'r Comisiwn Ewropeaidd a nifer o rwydweithiau a chynrychiolwyr Ewropeaidd ym Mrwsel.
- 19 Mehefin: Roedd Rhodri Glyn Thomas AC yn siarad ar ran Llywydd Pwyllgor y Rhanbarthau mewn cynhadledd yn Nulyn, a drefnwyd ar ran Llywyddiaeth Iwerddon o'r UE, a fu'n canolbwyntio ar rôl Polisi Cydlyniant yr UE a Banc Buddsoddi Ewrop yn adferiad economaidd Ewrop.
- 24 Mehefin: Bu Mick Antoniw AC ar ymweliad â Brwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd fel rhan o'r broses gynefino ar gyfer ei swydd newydd fel cynrychiolydd Pwyllgor y Rhanbarthau, a gadarnhawyd yn swyddogol ar 21 Mai 2013.
- 3-4 Gorffennaf: Bydd Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC yn ymweld â sesiwn lawn o Bwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel. Bydd Rhodri hefyd yn cynnal nifer o gyfarfodydd â'r Comisiwn Ewropeaidd a rhwydweithiau/cynrychiolwyr o'r UE i gasglu tystiolaeth ar gyfer ei adroddiad i Bwyllgor y Rhanbarthau ar gymorth gwladwriaethol ar gyfer pysgodfeydd a dyframaethu.

- 8 Gorffennaf: Bydd William Powell AC yn cynrychioli'r Cynulliad yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor Ewropeaidd Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon a fydd yn cael ei gynnal yn Nulyn. Bydd hyn yn cynnwys cyfarfod â Llywyddiaeth Iwerddon o'r Undeb Ewropeaidd a rhai cyfarfodydd anffurfiol gyda Banc Buddsoddi Ewrop.
- 31 Awst-5 Medi: Bydd Joyce Watson AC, Ann Jones AC a Simon Thomas AC yn cynrychioli cangen CPA y Cynulliad yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad rhif 59 a fydd yn cael ei chynnal yn Johannesburg, De Affrica.

## Ymweliadau rhyngwladol ac ymweliadau gan bwysigion eraill â'r Senedd

- 11 Mawrth: Ymwelodd Ei Hardderchogrwydd Mrs Esther G. Armenteros Cárdenas, Llysgennad Ciwba, â'r Cynulliad a chyfarfu â Rosemary Butler AC, y Llywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei hymweliad â Chymru.
- 19 Mawrth: Ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mr Bernard Emié, Llysgennad Ffrainc, â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.
- 21 Mawrth: Ymwelodd Ei Ardderchowgrwydd Mr Bobby McDonagh, Llysgennad Iwerddon, â'r Cynulliad i roi tystiolaeth i Gadeirydd y Pwyllgor ar flaenoriaethau Iwerddon yn ystod ei llywyddiaeth o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd. Cynhaliodd y Llysgennad dderbyniad i ddathlu Diwrnod Padrig Sant yng Nghymru ac i nodi Llywyddiaeth Iwerddon o Gyngor Gweinidogion yr UE.
- 29 Ebrill: Cadeiriodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, gyfarfod o Fforwm EC-UK yn y Senedd. Y pwysigion a oedd yn bresennol oedd: William Cash AS, Cadeirydd Pwyllgor Craffu Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin; Yr Arglwydd Tim Boswell, Cadeirydd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi; Mike Nesbitt MLA, Cadeirydd Pwyllgor Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog, Cynulliad Gogledd Iwerddon; a Christina McKelvie MSP, Cynullydd Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol Senedd yr Alban.
- 1 Mai: Bu Jacqui Minor, Pennaeth cynrychiolaeth y DU i'r Comisiwn Ewropeaidd; David Hughes, Pennaeth eu Swyddfa yng Nghymru; Bjorn Kjellstrom, Pennaeth cynrychiolaeth y DU i Senedd Ewrop; a James Temple-Smithson o'u swyddfa yng Nghaeredin, ar ymweliad â'r Senedd ar gyfer dadl i nodi 40 mlynedd, Cymru yn Ewrop, a drefnwyd ac a noddwyd ar y cyd gan y ddau sefydliad yr UE a'r Cynulliad.
- 1 Mai: Bu tri o'r pedwar Aelod Cymru o Senedd Ewrop, Derek Vaughan, Jill Evans a Dr Kay Swinburne, ar ymweliad â'r Cynulliad ar gyfer cyfarfod anffurfiol â Rosemary Butler AC, y Llywydd, Cadeiryddion y pwyllgorau a chynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau, yn ogystal â chymryd rhan ar banel y ddadl ar Gymru yn Ewrop yn y Pierhead.
- 11 Mehefin: Bu dirprwyaeth o Bafaria ar ymweliad â'r Cynulliad fel rhan o raglen ehangach a drefnwyd gan Siambr Fasnach De Cymru.

– 17 Mehefin: Ymwelodd Ei Hardderchogrwydd Ms Laetitia van den Assum, Llysgennad yr Iseldiroedd, â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.

– 2 Gorffennaf: Rhoddodd Kyle Galler, Prif Ddadansoddwr Polisi Economaidd yng nghynrhychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn y DU, y wybodaeth ddiweddaraf i nifer o Aelodau'r Cynulliad yn ystod sesiwn friffio dros frecwast a drefnwyd gan Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

– 9 Gorffennaf: Bydd Stéphane Paquet, Agent-General Québec, yn ymweld â'r Cynulliad am gyfarfod â Rosemary Butler AC, y Llywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.

– 11 Gorffennaf: Bydd Shan Morgan, Dirprwy Lysgennad y DU i'r UE yn cwrdd â David Melding, y Dirprwy Lywydd, Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad a chynrychiolwyr y Cynulliad ar Bwyllgor y Rhanbarthau yn ystod ymweliad deuddydd â Chymru a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Lincs**
– Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
– Tudalennau'r Pwyllgorau
– Gwasanaeth Ymchwil

**Am ragor o wybodaeth–**

**Cysylltwch â:**
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (**Gregg.Jones@wales.gov.uk**)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu
Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
**TimRhyngwladol@Cymru.gov.uk**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i chi. Os ydych am dderbyn copïau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, neu am dynnu eich enw oddi ar y rhestr i beidio â'i dderbyn, cysylltwch â Gregg Jones drwy e-bost.